

EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 163 - Ymgom 7, 8 a 9 (D) (2-4 mewn nifer)
Sgript osod gan Gwynedd Huws Jones



CYNGOR YR YSGOL

Person 1 .

Person 2

Person 3

Person 4

Sefyllfa

Agorir gyda llwyfan gwag....Gwelwn ddau yn dod i'r llwyfan, mae un yn cario bocs cardbord eitha mawr...gwelwn ef yn rhoi y bocs i lawr.

Person 1 Ddudes i fod y bocs na'n rhy fawr yn do?

Person 2 Dyma'r unig un oedd gan y gofalwr.

Person 1 ***(Yn cerdded o amgylch y bocs)*** Pa syniade sydd ynddo fo tybed?

Person 2 Rhai dwl siwr o fod.

Person 1 Paid a bod mor ***(Chwilio am air)***...negyddol am bob dim.

Gwelwn ddau arall yn dod i ymuno yn y sgwrs.

Person 3 ***(Yn edrych ar y bocs)*** Ydych chi'ch dau wedi bod yn sbecian?

Person 4 Busnesa yn y bocs o'n blaen?

Person 2 Naddo wir, dyden ni ddim fod i'w agor o heb i bawb fod yma.

Person 1 Pawb o Gyngor yr Ysgol ti'n feddwl ie?

Person 4 Ie ..le...felly gadewch inni agor y bocs.

Person 3 Ydi'r Prifathro i fod yma?

Person 1 ***(Yn bwysig)*** Mae o/hi wedi rhoi caniatad i ni agor y bocs y tro yma.

Person 4 Pam hynny, ydi o/hi wedi colli diddordeb yng Nghyngor yr Ysgol?

Person 3 Dw i ddim yn gwybod am hynny.

Person 1 A ni ydi Cyngor yr Ysgol yn de?

Person 2 A dwi wedi rhoi llawer o syniadau yn y boc.

Person 4 Syniadau i wella'r bwyd mi fetia i!

Person 2 Dim i gyd.

Person 3 Fedri di feddwl am rywbeth ond dy fol dwed?

Person 1 **(Yn bwysig)** Mae'n fraint bod ar Gyngor yr Ysgol.

Person 4 Pam hynny?

Person 1 **(Yn feddylgar)** I drafod problemau yr ysgol.

Person 3 Ie, a rhannu syniade?

Person 4 Penderfynu pethau.

Person 2 Fel yn y Cynulliad.

Person 3 Dim byd tebyg i'r Cynulliad!

Person 1 **(Yn pwyntio at y boc)** Yn hwn y mae dyfodol ein hysgol ni?!

Person 3 Be ti'n feddwl?

Person 1 Mi fydd yma ysgol ardderchog wrth wneud i'r syniadau ddod yn wir.

Person 2 Ydych chi eisau clywed y syniad wnes i roi yn y boc?

Person 4 Oes rhaid i ni?

Person 2 Oes

Person 4 Ie iawn....os oes rhaid i ni.

Person 2 **(Yn frwdfrydig)** Cael sôs coch ar y bwrdd cinio bob amser.

Person 3 Be ddudes i?!

Gwelwn person 1 yn agor y boc yn araf..mae'r gweddill yn edrych ar y weithred yn geg agored...mae'n tynnu yr awgrymiadau allan fesul un.

Person 2 Wel be mae'n ddweud?

Person 4 Fy syniad i ydi o?

- Person 1 Sut fedra i ddeud hynny y twpsyn?
- Person 4 O ie.....sori.
- Person 3 **(Yn frwdfrydig ac yn pwyntio at y boc)** Cadw ieir ydi fy syniad i...
- Person 1 Cadw ieir ar fuarth yr ysgol?
- Person 4 **(Yn gwneud gwyneb)** Ych-a-fi..cael baw ieir dan ein 'sgidiau.
- Person 2 **(Yn frwdfrydig)** Mi wna i gasglu'r wyau.
- Person 4 Os fedri di 'i ffeindio nhw!

Mae pawb yn chwervthin

- Person 1 **(Yn darllen y papur cyntaf)** Dylai'r ysgol ddechrau am 8 a gorffen am 1.
- Person 3 Wel am syniad gwirion...
- Person 2 **(Yn rhwbio ei fol)** Ga i ddim cinio wedyn.
- Person 3+4 Na ni chwaith!
- Person 1 **(Yn darllen cerdyn arall)** Cael clwb dal i fyny a gwaith cartref.
- Person 4 Pwy feddylodd am y syniad dwl yna?
- Person 2 Os mai dyma ydi Cyngor Ysgol.....dw i'n ymddiswyddo.
- Person 3+4 A ni.
- Person 1 **(Yn codi cerdyn o'r boc)** Dyma i chi un da....cael bwrdd cinio mawr crwn yn y ffreutur, neb yn gorfod bwyta ar ei ben ei hun.
- Person 2 Syniad da, a rhoi digon o fwyd arno fo.
- Person 1 **(Yn estyn cerdyn arall o'r boc)** A dyma chi un arall, 'Mynd i gael sgwrs ar fuarth yr ysgol hefo disgybl sy'n edrych yn unig.'
- Person 4 Syniadau ardderchog.
- Person 1 **(Yn edrych ar y cwestiynau yn ei law)** Dim un o'ch syniade chi wedi dod i'r golwg eto nagoes?

Gwelwn pawb yn edrych ar ei gilydd gan ysgwyd ei pennau

- Person 1 Hynny ddim yn rhyfedd.

Person 3 Pam?

Person 1 **(Yn gwenu)** Yr un llawsgriften sydd ar y cardiau yma i gyd.

Person 4 Un pwy?

Mae'n pasio'r cardiau i bawb gael eu gweld

Person 1` Y prifathro/prifathrawes.

Person 2 Wel am hen dric gwael.

Person 1 Ond, mae o/hi wedi gwneud inni feddwl am ei syniade fo/hi yn tydi?

Person 3 Gan wybod y bydden ni'n anghytuno hefo fo/hi petai o/hi yma.

Person 2 Dwi'n mynd....yr holl fusnes Cyngor Ysgol ma'n codi awydd bwyd arna i.

Gwelir y pedwar yn gadael y llwyfan gan chwerthin ac yn cario'r bocs gyda hwy

Y DIWEDD

Gyda chaniatâd Gwyneth Huws Jones